# COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 19 Mehefin 2002

**Amser:** 9.00am tan 11.26am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol:** **Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Maesyfed |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Jocelyn Davies | Dwyrian De Cymru |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones (Cadeirydd Dros Dro – Eitem 4) | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Swyddogion Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Peter Lawler | Cangen Iechyd Teulu, Adran GIG Cymru |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwraig, GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| Dr Jane Ludlow | Swyddfa’r Prif Swyddog Meddygol |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymru |
| Dr David Salter | Swyddfa’r Prif Swyddog Meddygol |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwraig, Grwp Gofal Cymdeithasol |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Peter Jones | Cwnsler i’r Pwyllgorau |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Rod Richards. Cymerodd Val Loyd le Lynne Neagle.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf;
- Brian Gibbons, ymarferydd meddygol cofrestredig ac mae ei wraig yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol;
- Dai Lloyd, ymarferydd cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Val Lloyd, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe; nyrs gofrestredig ac athrawes nyrsys.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**
**Papur HSS-13-02(pp1, 1a ac 1b)**

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Mesur Diwygio’r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd wedi mynd drwy’r camau olaf yn y Senedd a bod disgwyl i Gydsyniad Brenhinol ddigwydd fis nesaf. Roedd gwelliant yn Nhy’r Arglwyddi a fyddai wedi gosod dyletswydd ar sefydliadau GIG i ddiogelu a hyrwyddo addysg, hyfforddiant ac ymchwil wedi’i dynnu’n ôl yn dilyn cyhoeddiad y byddai adolygiad ar y cyd yn cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr.

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau ar yr adroddiad misol:

Rhan

1.1
- Roedd y cynnig i gadw gwasanaethau cymorth sy'n cael eu rhannu yn eu lleoliad presennol ar gyfer y ddwy neu dair blynedd cyntaf wedi'i groesawu gan y staff. Byddai gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) gytundebau lefel gwasanaeth â'r darparwr gwasanaethau. Byddai grwpiau rhanddeiliaid defnyddwyr yn cymryd rhan wrth reoli gwasanaethau cymorth sy'n cael eu rhannu.

- Byddai'r Pwyllgor yn derbyn papur ar gostau ailstrwythuro ar 3 Gorffennaf. Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn monitro'r costau. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw mewn cysylltiad ag Unsain.

1.2
- Ni fyddai'r cynlluniau cyfalaf yn cael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro a dylent fynd yn eu blaen fel y cynlluniwyd.

1.3.
- Yr ystod oed bresennol ar gyfer sgrinio'r fron oedd 50 i 65 oed. Roedd arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i ehangu'r rhaglen a byddai adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno flwyddyn nesaf.

2.2
- Nid oedd pwysau argyfwng wedi'u cyfyngu i'r gaeaf bellach.
- Roedd y Strategaeth Amserau Aros a'r camau i ostwng oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cael effaith ar reoli pwysau argyfwng.
- Roedd y Strategaeth Amserau Aros wedi nodi targedau ar gyfer y flwyddyn;
- Roedd amrywiol fentrau ar waith i osgoi derbyniadau amhriodol, megis unedau asesu, y tîm gofal cyflym yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg roedd y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yn rhannu adeiladau â'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys.

3.1
- Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr Asiantaeth Diogelwch Cleifion Genedlaethol yn casglu gwybodaeth ar sail gyfrinachol. Yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun peilot ystyriwyd bod 2% o'r achosion a gofnodwyd yn rhai difrifol.

4.5 • Roedd yr anhawster wrth recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau diogelu plant yn broblem ledled Cymru. Roedd y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn mynd i'r afael â hyn ac roedd ffeiriau gyrfa a sioeau teithiol yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol.

5.2 • Bu nifer o adroddiadau ar ddarpariaeth gofal cartrefi preswyl a nyrsio, yn cynnwys adroddiad Rowntree. Roedd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grë p Strategaeth Gofal. Byddai copi o'r dadansoddiad ar gael i'r Pwyllgor.

O ran 2.2, dywedodd Brian Gibbons, Cadeirydd y Grë p Strategaeth Amserau Aros, bod projectau peilot yn cael eu prif ffrydio bellach.

Ar 4.5, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa heriol sy'n rhoi boddhad ac i wrthwynebu'r ddelwedd anffafriol a bortreadir yn aml yn y cyfryngau.

**Gweithredu**

- Adroddiadau pellach ar ehangu Rhaglen Sgrinio'r Fron i'w cynnwys yn adroddiad misol y Gweinidog yn y flwyddyn newydd.
- Anfon copïau o'r dadansoddiad o'r adroddiadau ar gartrefi gofal preswyl a nyrsio i'r Pwyllgor.

**Eitem 3: Mesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd – Gorchymyn Drafft Arfaethedig: Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) 200[2]**
**Papur HSS-13-02(p2)**

Dywedodd y Cadeirydd fod llefarwyr dros y pleidiau wedi cytuno y byddai cyfle, wrth drafod deddfwriaeth eilaidd, i aelodau wneud sylwadau cyffredinol a gofyn cwestiynau. Fodd bynnag, prin oedd y manylion yn y Gorchymyn drafft arfaethedig.

Gwerthfawrogodd y Gweinidog bryder y Cadeirydd ac aelodau eraill, ond roedd hi'n ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer defnyddio'r "ymagwedd swyddogaethau wedi'u heithrio", un a oedd wedi'i sefydlu'n dda. Roedd gwaith yn digwydd o hyd ar fanylion y cynllun, ond dylai fod ar gael ymhen rhai wythnosau. Byddai ymgynghoriad dros yr haf a byddai'r drafft terfynol yn mynd i'r Sesiwn Llawn yn yr Hydref.

Pwysleisiwyd wrth y Gweinidog bod y Pwyllgor wedi cytuno i graffu gorchmynion drafft arfaethedig cyn bod y Mesur yn derbyn Cydsyniad Brenhinol i osgoi'r angen am graffu llawn yn yr Hydref. Roedd y Pwyllgor wedi dymuno ac wedi disgwyl trafod manlion swyddogaethau BILl. Gan nad oedd unrhyw sylwedd bellach i'r Gorchymyn drafft arfaethedig cytunodd y Pwyllgor y dylai'r cadeirydd ysgrifennu at

y Dirprwy Lywydd, gan ofyn y dylai'r Gorchymyn drafft, pan fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes yn yr Hydref o dan Rheol Sefydlog 22.5, gael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Derbyniodd y Pwyllgor egwyddor yr "ymagwedd swyddogaeth wedi'u heithrio".

**Gweithredu:** dylid trafod y ffordd orau o ymdrin â hyn yng nghyfarfod nesaf llefarwyr y pleidiau.

**Eitem 5: Cofnodion y Cyfarfod ar 29 Mai 2002**
**Papur HSS-12-02(min)**

Gan bod y cyfarfod yn rhedeg o flaen amser cynigiodd y Cadeirydd gymryd y cofnodion a'r sylwadau ar bapurau i'w nodi.

Derbyniwyd y cofnodion ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Ail Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**
**Papur HSS-13-02(p5)**

Mewn ateb i gwestiynau dywedodd y Gweinidog:

- eu cyfrifoldeb hwy oedd lefel ariannu Awdurdodau Iechyd unigol.
- Byddai'n ysgrifennu at y Llywydd yngyn â hyrwyddo'r Ymgyrch Rhoi ymysg Aelodau'r Cynulliad a'u staff cynorthwyol.

**Archwiliad Gofal Clinigol Cenedlaethol o Farwolaethau'n Gysylltiedig ag Epilepsi**
**Papur HSS-13-02(p6)**

Cytunodd y Pwyllgor fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth nad yw epilepsi yn gyflwr diniwed a bod angen gwneud mwy i atal marwolaethau diangen. Dylid ystyried paratoi cyflwyniad ar yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n datblygu strategaeth epilepsi. Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd fod swyddogion yn cael trafodaethau ar ariannu â'r sefydliad Epilepsi Cymru. Roedd sefydliadau eraill, er enghraifft yng Ngwent a'r Gogledd, yn darparu cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef o epilepsi.

**Defnyddio Teclynnau Untro mewn llawdriniaethau Tonsilectomi ac Adenoidectomi o fewn GIG Cymru.**
**Papur HSS-13-02(p7)**

Dywedodd Dr Salter fod trafodaethau yn parhau â phroffesiynau ac asiantaethau a oedd yn edrych ar

opsiynau i alluogi i wasanaethau llawdriniaeth llawn ail gychwyn. Roedd gweithgynhyrchwyr yn gweithio i wella teclynnau untro a gobeithiwyd y byddent ar gael ymhen pedwar i chwe mis. Yn y cyfamser gallai llawfeddygon ddefnyddio'r teclynnau untro a oedd ar gael ar hyn o bryd os oeddent yn gyfforddus â hwy. Gellid defnyddio teclynnau nad ydynt yn rhai untro ar sail un defnydd yn unig mewn achosion o argyfwng.

**Diwygiadau Strwythurol ar gyfer y GIG yng Nghymru: Sefydlu Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Arbenigol Cryfach yng Nghymru**
**Papur HSS-13-02(p8)**

Mewn ymateb i gwestiwn am gyfansoddiad y Bwrdd Ymgynghorol, dywedodd y Gweinidog y byddai cyfle ar gyfer craffu a thrafod ymhellach yng nghyd-destun ei hadroddiad misol nesaf.

**Arweiniad Statudol ar Godi Tâl am Ofal yn y Cartref**
**Papur HSS-13-02(p9)**

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at aelodau ynglyn â pha un a oedd yr arweiniad statudol wedi bwriadu y dylid cynnwys costau heblaw'r rhai ar gyfer gwasanaethau penodol i ddefnyddwyr fel rhan o "ddarparu'r gwasanaeth".

**Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei Ystyriaeth o Fesur Drafft GIG (Cymru)**
**Papur HSS-13-02(p10)**

Cymeradwywyd yr adroddiad

**Gweithredu:**

- Y Gweinidog i ysgrifennu at y Llywydd ynglyn â hyrwyddo'r Ymgyrch Rhoi ymysg Aelodau'r Cynulliad a'u staff cynorthwyol.
- Dylid ystyried trefnu cyflwyniad ar Epilepsi.
- Dylid darparu gwybodaeth bellach am y cynigion ar gyfer Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) i'w darparu yn yr adroddiad misol nesaf.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at aelodau ynglí n â'r arweiniad statudol ar godi tâl am ofal yn y cartref.
- Anfon Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur GIG (Cymru) at y Gweinidog, anfon copi at Bwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Faterion Cymreig a'i gyflwyno.

Ar y cam hwn bu'n rhaid i'r Cadeirydd, a oedd anhwylus, adael y Pwyllgor. Etholwyd Ann Jones fel Cadeirydd dros dro.

**Eitem 4 - Adolygiad Gwasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig**

**Papur HSS-13-02(p3)**

Croesawodd y Cadeirydd Cynog Dafis o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a oedd yn ymuno â'r Pwyllgor ar gyfer yr eitem. Roedd Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, wedi anfon ei hymddiheuriadau.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod hwn yn barhad o'r drafodaeth ar 15 Mai pan oeddent wedi dechrau ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a oedd wedi'i chyflwyno, ynghyd ag adolygiad o'r deunydd darllen ar y pwnc. Y papur pwyllgor (HSS-13-02(p3)) oedd yr un papur â'r un a oedd ganddynt ym mis Mai. Nododd yr wyth agwedd allweddol ar wasanaeth yr oedd yr adolygiad yn mynd i'r afael â hwy. Yn y cyfarfod diwethaf roedd y Pwyllgor wedi trafod y pedair gyntaf.

***4. Argaeledd gofal a thriniaeth.***

Dywedodd Cynog Dafis nad oedd modd iddo fynychu'r drafodaeth ddiwethaf, ac awgrymodd mewn cysylltiad ag agwedd allweddol rhif 4, y dylai adroddiad y Pwyllgor drafod y posibilrwydd ar gyfer hyfforddi lleferydd a iaith cyflymach ar gyfer pobl â chymwysterau perthnasol ac ymagweddau hyblyg eraill i fynd i'r afael â'r diffyg presennol.

Wrth ystyried agweddau allweddol pump i wyth gwnaeth yr aelod y pwyntiau canlynol.

***5. Cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr eraill***

- Roedd darpariaeth gofal seibiant yn ddarniog, ond roedd yn gwella. Roedd Strategaeth y Gofalwyr yn cyfrannu at y gwelliant.
- Roedd problemau wrth gydlynu amseru ar gyfer teuluoedd oedd â mwy nag un plentyn a oedd angen seibiant.
- Roedd yn anodd i rieni â phlant o dan bump oed â phroblemau difrifol gael mynediad i ofal seibiant neu ofal plant.
- Roedd angen i wasanaethau fod ar gael yn ehangach, yn cynnwys lleoliad dysgu a gofalu 24 awr, pa un ai y'u derbyniwyd gartref neu yn yr ysgol.
- Dylai seibiant fod ar gael am gyfnodau byr, ee awr neu ddwy, yn ogystal â chyfnodau hwy.
- Roedd plant yn elwa o barhad staffio a gofalwyr.

***6. Cyfarpar ac anghenion gwasanaethau cymdeithasol eraill***

- Roedd angen cydlynu cyflenwad cyfarpar rhwng y gwahanol asiantaethau a defnyddio ymagweddau hyblyg megis cronni arian a chomisiynu arwain i'r fantais eithaf.
- Roedd aelodau oedd yn ymgymryd ag ymweliadau wedi clywed am broblemau a rhwystredigaethau, er enghraifft roedd car wedi'i ddarparu, ond nid oedd arian ar gael ar gyfer y sedd car arbennig yr oedd ei hangen ar y plentyn.
- Dylid monitro'r defnydd o gyfarpar ac ailgylchu unrhyw beth nad oedd ei angen mwyach.

- Mae angen mwy nag un gadair olwyn ar rai plant ar gyfer swyddogaethau gwahanol, ac mae angen addasu cyson ar gadeiriau olwyn wrth i blant dyfu.
- Yn aml roedd amserau aros hir ar gyfer cadeiriau olwyn ac roedd angen archwilio'r rhesymau dros hyn.
- Nid oedd y broses o wneud cais am grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer addasiadau i dai yn gyfeillgar i'r defnyddiwr. Mewn rhai achosion roedd angen gwaith sylweddol ac roedd yn cymryd gormod o amser.
- Roedd achos dros ystyried a ddylai rhieni orfod cyfrannu at gost addasiadau, yn enwedig gan fod gofal yn y cartref yn llawer yn rhatach na gofal mewn sefydliad.
- Roedd rhai rhieni wedi dweud bod y gost o brynu cyfarpar yn uchel, a hynny yn ddiangen.

***7. Plant ag anghenion addysgol arbennig.***

- Roedd rhai rhieni wedi cael anawsterau wrth sicrhau lle mewn ysgol arbennig i'w plant a theimlasant fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhwystrol. Mewn rhai achosion roedd yn rhaid i rieni wneud cais yn flynyddol am arian am le, ac roedd hyn yn peri tyndra.
- Dylai fod gan y rhieni a'r plentyn y dewis rhwng addysg arbennig ac addysg prif ffrwd.
- Byddai addysg prif ffrwd yn well ar gyfer y mwyafrif o blant, ond nid dyma'r addysg fwyaf priodol i bawb ac roedd yn bwysig bod cydbwysedd o ran y ddarpariaeth.
- Roedd gan y gwasanaeth nyrsio ysgol rôl allweddol, a dylid annog nyrsys ysgol i gael cymhwyster pediatrig.

***8. Arfer Dda***

- Roedd y Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth bod nifer o enghreifftiau o arfer dda.
- Gwnaethpwyd argraff dda ar aelodau gan yr hyn a welsant ar eu hymweliadau â chynlluniau sector gwirfoddol a'r hyn oedd wedi'i gyflawni. Roedd ansawdd yr adeiladau yn arbennig yn uchel.
- Darparodd y cynlluniau sector gwirfoddol hyn ffocws gweledol ac roeddent yn gallu darparu gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr.
- Roedd ariannu ar gyfer projectau sector gwirfoddol yn ansefydlog ac yn aml gwirfoddolwr rhan amser oedd yn gorfod nodi ffynonellau ariannu a pharatoi ceisiadau.
- Roedd sefydliadau bach a oedd wedi'u harwain gan rieni yn dangos eu bod yn gallu darparu gwasanaethau cyhyd â'u bod yn derbyn arian digonol.
- Gallai asiantaethau statudol ddysgu llawer o'r sector gwirfoddol, o sefydliadau megis Coleg Elidir, yn Rhandirmwyn, Sir Gaerfyrddin.
- Dywedodd y Gweinidog fod angen gwerthuso arfer da, ei feincnodi a'i rannu. Gellid cyflawni hyn drwy Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y Plant a oedd yn cael ei ddatblygu. Yr allwedd i lwyddiant fyddai croesawu amrywiaeth, ond annog cynllunio a gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau.
- Awgrymwyd y gallai adroddiad y Pwyllgor gynnwys enghreifftiau o arfer da.

Gorffennodd y cyfarfod am 11.36am.